ATODLEN 2

Cosbau ariannol penodedig

# RHAN 1

## Gosod cosbau ariannol penodedig a gweithdrefn

### Y pŵer i osod cosb ariannol benodedig

**1.**—(1) Caiff gweinyddwr drwy hysbysiad osod cosb ariannol benodedig ar werthwr sy'n torri'r Rheoliadau hyn o dan yr amgylchiadau a bennir yn rheoliad 11(2).

(2) Caiff gweinyddwr arfer y pŵer a roddir gan is-baragraff (1) mewn perthynas ag achos os yw wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd bod y toriad yn y Rheoliadau wedi digwydd.

### Cosbau ariannol penodedig

**2.** Swm y gosb y gellir ei gosod gan weinyddwr fel cosb ariannol benodedig mewn unrhyw achos yw'r swm a bennir yn ail golofn y tabl yn Rhan 2 drwy gyfeirio at y math o doriad yn y Rheoliadau sydd o dan sylw.

### Hysbysiad o Fwriad

**3.**—(1) Pan fo gweinyddwr yn bwriadu gosod cosb ariannol benodedig ar werthwr, rhaid i'r gweinyddwr gyflwyno hysbysiad o fwriad i'r gwerthwr hwnnw(**1**).

(2) Rhaid i hysbysiad o fwriad—

(a) datgan swm y gosb;

(b) cynnig y cyfle i'r gwerthwr ryddhau ei hun rhag atebolrwydd am y gosb drwy dalu'r swm penodedig o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y cafwyd yr hysbysiad;

(c) cynnwys gwybodaeth o ran—

(i) y seiliau am y bwriad i osod cosb ariannol benodedig;

(ii) effaith talu'r swm penodedig;

(iii) yr hawl i wneud sylwadau a gwrthwynebiadau a roddir gan baragraff 5;

(iv) o dan ba amgylchiadau ni chaiff y gweinyddwr osod y gosb ariannol benodedig;

(v) y cyfnod o 28 o ddiwrnodau y caniateir rhyddhau rhag atebolrwydd i gosb ariannol benodedig yn rhinwedd paragraff 4;

(vi) y cyfnod o 28 o ddiwrnodau y ceir gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau ynddo;

(vii) sut y gellir talu.

### Rhyddhau rhag atebolrwydd yn dilyn hysbysiad o fwriad

**4.**—(1) Caiff atebolrwydd gwerthwr i gosb ariannol benodedig ei ryddhau os bydd y gwerthwr yn talu'r swm penodedig o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y cafwyd yr hysbysiad o fwriad sy'n ymwneud ag ef.

(2) Y swm penodedig yw'r swm a bennir yn nhrydedd golofn y tabl yn Rhan 2 drwy gyfeirio at y math o doriad yn y Rheoliadau sydd o dan sylw.

(**1**) I gael ystyr "*notice of intent*" *gweler* paragraff 11(1)(a) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.

### Gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau

**5.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os na fydd gwerthwr yn rhyddhau ei hun rhag atebolrwydd i gosb ariannol benodedig drwy dalu'r swm penodedig.

(2) O fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y cafodd y gwerthwr yr hysbysiad o fwriad, caiff y gwerthwr wneud sylwadau a gwrthwynebiadau ysgrifenedig i'r gweinyddwr mewn perthynas â'r gosb ariannol benodedig y bwriedir ei gosod.

### Penderfynu ai gosod cosb ariannol benodedig ai peidio

**6.**—(1) Ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau i wneud sylwadau a gwrthwynebiadau o dan baragraff 5, rhaid i'r gweinyddwr benderfynu ai gosod y gosb ariannol benodedig ai peidio.

(2) Wrth wneud penderfyniad o dan y paragraff hwn rhaid i weinyddwr gymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau a wnaed gan y gwerthwr yn unol â'r paragraff hwnnw.

(3) Ni chaiff gweinyddwr benderfynu gosod cosb ariannol benodedig yn unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau canlynol—

(a) os cafwyd rhyddhad rhag atebolrwydd i gosb ariannol benodedig mewn perthynas â'r un toriad yn y Rheoliadau drwy dalu'r swm penodedig;

(b) os gosodwyd eisoes gosb ariannol benodedig mewn perthynas â'r un toriad yn y Rheoliadau;

(c) os gosodwyd gofyniad yn ôl disgresiwn mewn perthynas â'r un weithred neu anwaith.

(4) Heb gyfyngu ar y pŵer o dan is-baragraff (1), caiff gweinyddwr benderfynu peidio â gosod cosb benodedig os yw'r gweinyddwr o'r farn y byddai'n anfuddiol gwneud hynny o dan holl amgylchiadau'r achos.

(5) Pan fo'r gweinyddwr yn penderfynu gosod y gosb ariannol benodedig rhaid iddo wneud hynny drwy gyflwyno'r hysbysiad terfynol i'r gwerthwr(**2**).

(6) Rhaid i'r hysbysiad terfynol gydymffurfio â pharagraff 7.

### Cynnwys hysbysiad terfynol

**7.** Rhaid i'r hysbysiad terfynol gynnwys gwybodaeth o ran—

(a) y seiliau dros osod y gosb ariannol benodedig;

(b) ymateb y gweinyddwr i unrhyw sylwadau a gwrthwynebiadau a wnaed gan y gwerthwr;

(c) swm y gosb;

(ch) sut y gellir talu;

(d) y cyfnod o 56 o ddiwrnodau y mae'n rhaid talu ynddo;

(dd) effaith paragraff 9 (disgownt am dalu'n gynnar);

(e) effaith paragraff 10 (cosb am dalu'n hwyr);

(f) hawliau i apelio; ac

(ff) canlyniadau peidio â thalu.

### Talu

**8.**—(1) Rhaid talu cosb ariannol benodedig o fewn 56 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y cafwyd yr hysbysiad terfynol sy'n gosod y gosb.

(**2**) I gael ystyr "*the final notice*" *gweler* paragraff 11(1)(d) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.

Ond mae hyn yn ddarostyngedig i reoliad 21(4) (atal gofynion a hysbysiadau tra disgwylir apêl).

(2) Os bydd penderfyniad i osod cosb ariannol benodedig yn destun apêl, yna os caiff y penderfyniad hwnnw ei gadarnhau, rhaid i'r gwerthwr dalu'r gosb o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y dyfernir yr apêl.

### Disgownt am dalu'n gynnar

**9.** Caiff gwerthwr ryddhau ei hun rhag atebolrwydd i gosb ariannol benodedig drwy dalu 50% o swm y gosb o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y cafwyd yr hysbysiad terfynol sy'n ei gosod.

### Cosb am dalu'n hwyr

**10.** Os na thelir cosb ariannol benodedig o fewn y cyfnod a ganiateir yn unol â pharagraff 8 cynyddir swm y gosb gan 50%.

### Seiliau apêl

**11.**—(1) Caiff gwerthwr apelio yn erbyn penderfyniad gweinyddwr i osod cosb ariannol benodedig.

(2) Y seiliau ar gyfer apelio yw—

(a) bod y penderfyniad yn seiliedig ar wall ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith;

(c) bod y penderfyniad yn afresymol am unrhyw reswm arall, neu

(ch) unrhyw reswm arall.